



Canllaw ar y Cyd i Ymgeiswyr mewn Etholiadau

Pan fydd pethau'n mynd yn rhy bell

Cynnwys

Pam y canllaw hwn?	3
Beth allai ddigwydd?	3
Diogelu eich Hun, Teulu, Ffrindiau a Chydweithwyr	4
Pa Bryd Ddylwn i Gysylltu â'r Heddlu?	5
Dolenni Allweddol	6
Cyfarwyddyd Deddfwriaethol	7

Pam y canllaw hwn?

Mae dadl a thrafodaeth wleidyddol wrth wraidd unrhyw broses ddemocrataidd. Mae'r rhyddid i ddadlau ac anghytuno ag eraill yn rhan allweddol o fywyd cyhoeddus.

Weithiau, gall fynd yn rhy bell. Pan fydd, gall arwain at aflonyddu, ymddygiad bygythiol ac, mewn rhai amgylchiadau, gall gael ei ystyried yn drosedd. Gall hyn achosi ichi gwestiynu a ydych wedi gwneud y peth cywir wrth gymryd rhan a chyfrannu at fywyd cyhoeddus.

Cynhyrchwyd y canllaw hwn ar y cyd gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC), Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), y Coleg Plismona a'r Comisiwn Etholiadol, i'ch helpu i ymateb i ymddygiad bygythiol. Mae rhan gyntaf y canllaw yn rhoi cyngor ymarferol yn seiliedig ar brofiadau blaenorol ymgeiswyr a chyngor plismona a diogelwch personol. Mae'n amlinellu dangosyddion a throseddau allweddol, ffyrdd o ddiogelu eich hun a dolenni at wybodaeth berthnasol arall. Mae ail ran y cyfarwyddyd yn rhoi diffiniadau cyfreithiol a manylion yr hyn allai gyfateb i dorri cyfraith droseddol er mwyn rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr a'u cynorthwyo o ran unrhyw gyswllt y gallant ei gael gyda'r Heddlu a'r system gyfiawnder troseddol ehangach. Bwriedir i'r ddau ganllaw gael eu darllen ar y cyd. Mae'r ddogfen ar gael o wefan y Comisiwn Etholiadol.

Beth allai ddigwydd?

Mae'r cyfnod etholiadol yn rhoi pob math o straen ar ymgeiswyr. Bydd hyn yn cynnwys mwy o graffu arnoch chi a'ch safbwynt gwleidyddol. Cewch lawer mwy o sylw cyhoeddus.

I'r rhan fwyaf o ymgeiswyr, a'r rhan fwyaf o'r amser, ni fydd y straen yma'n effeithio ar eich diogelwch personol. Fodd bynnag, bu amryw o sefyllfaoedd pan brofodd ymgeiswyr lefelau annerbyniol o aflonyddu a bygythiad. Gall hyn gael effaith seicolegol sylweddol ar ymgeiswyr a'r rhai sy'n agos atynt a gall effeithio ar eu llesiant. Mewn rhai achosion, bu'r ymddygiad hwn yn anghyfreithlon ac mae'r gweithredoedd wedi cyrraedd y trothwy troseddol. Arweiniodd yr enghreifftiau gwaethaf at drais ac anafiadau.

Mae'n bwysig cydnabod beth allai ddigwydd a pha gamau y gallwch eu cymryd. Mae'r cyngor sydd yn y canllaw hwn yn berthnasol i'ch bywyd gwleidyddol a'ch bywyd personol – gall aflonyddu a bygythiadau gael eu hanelu at eich teulu, eich ffrindiau, a'ch cyd-weithwyr. Yn ogystal â digwydd mewn bywyd cyhoeddus, gall yr ymddygiad a'r gweithredoedd hyn ddigwydd yn bennaf mewn manau rhithwir ('ar-lein').

Mae lefel y bygythiad cenedlaethol yn y Deyrnas Unedig yn SYLWEDDOL, sy'n golygu bod ymosodiad yn debygol, ac yn adlewyrchu'r bygythiad oddi wrth Derfysgaeth Islamaidd, Aden Dde ac Aden Chwith. Dyma'r cefndir o ran diogelwch ac mae'n bwysig bod yn ymwybodol fel ymgeisydd mewn ymgyrch etholiad sy'n cael cyhoeddusrwydd.

Diogelu eich Hun, Teulu, Ffrindiau a Chydweithwyr

Mae camau i chi eu cymryd i'ch helpu i ddiogelu eich hun ac eraill, er enghraifft:

- Pan fyddwch mewn hystingau neu gyfarfodydd cyhoeddus, byddwch yn ymwybodol o'r hyn sydd o'ch cwmpas ac os bydd rhywbeth neu rywun yn achosi i chi fod yn bryderus am eich diogelwch, rhowch adroddiad i'r heddlu gan ddefnyddio 999 os yw'r bygythiad neu'r perygl yn un brys ac 101 i roi adroddiad am weithgareddau amheus sydd wedi digwydd yn barod.
- Ystyriwch eich diogelwch wrth ganfasio ac ymweld â phleidleiswyr wrth y drws. Er bod trafodaeth wleidyddol yn rhan allweddol o'n democratiaeth, os byddwch yn teimlo yn anniogel, yna camwch yn ôl. Os yn bosibl, ewch i ymweld â phobl gyda chydymaith, neu o leiaf dywedwch wrth rywun eich bod yn canfasio, a sicrhau eich bod yn gwneud penderfyniadau diogel ar y trothwy.
- Cadwch gofnod o unrhyw ymddygiad bygythiol (beth, ymhle, pa bryd) – gorau po fwyaf o fanylion a roddwch.
- Peidiwch ag ymgysylltu ag unigolion sy'n eich stelcian/aflonyddu (heb fod ar-lein ac ar-lein).
- Rhowch adroddiad am achosion o aflonyddu i'ch darparwr gwasanaeth rhynggrwyd / cwmni ffôn symudol.
- Defnyddiwch yr offer 'Rhoi Adroddiad am Gamdriniaeth' ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- Blociwch/rhowch adroddiad am droliau. Gallwch analluogi sylwadau ar Instagram neu facebook o bostiad i bostiad os bydd angen.
- Cynhaliwch wiriad iechyd ar-lein - adolygwch wybodaeth ar-lein a lleihau faint o wybodaeth bersonol sydd ar gael.
- Ceisiwch gyngor gan eich heddlu lleol am ddiogelwch personol a diogelwch adeiladau (e.e. arolwg diogelwch yn y cartref/gweithle).
- Bydd Lluoedd Heddlu yn cynnal sesiynau galw heibio i ymgeiswyr, a fydd yn cael eu trefnu trwy eich swyddog etholiadau, rydym yn eich cynghori i fynd i'r rhain er mwyn bod yn y sefyllfa orau o ran eich diogelwch.
- Rydych wedi cael un man cyswllt ar gyfer eich llu heddlu yn eich llythyr ymgeisydd, os bydd arnoch angen trafod troseddau neu bryderon am ddiogelwch fel ymgeisydd yna defnyddiwch y manylion cyswllt a roddwyd i chi. Ffoniwch 999 mewn argyfwng bob amser.

Mae rhagor o gyngor a gwybodaeth ar gael dan y dolenni allweddol ond os teimlwch y byddwch chi neu eraill mewn perygl ar unwaith, ffoniwch yr heddlu ar 999.

Pa Bryd Ddylwn i Gysylltu â'r Heddlu?

Gall y gweithredoedd a'r ymddygiad a restrir isod fod yn drosedd a dylid eu dwyn i sylw eich heddlu lleol. Mae'r cyfarwyddyd cyfreithiol yn y canllaw hwn yn rhoi mwy o fanylion a gwybodaeth ar y mathau o droseddau.

- Cyfathrebiadau, ar-lein neu fel arall, sy'n cynnwys iaith ddifriol neu fygythiol.
- Gall cyswllt nas dymunir a pharhaus gael ei ystyried fel aflonyddu neu stelcian.
- Sarhad neu fygythiadau hiliol, homoffobig neu wahaniaethol arall.
- Obsesiwn â chi neu fater sy'n gysylltiedig â'ch ymgyrch.

Gall y dangosyddion canlynol ('baneri coch') ddynodi bod y sefyllfa yn gwaethygu a dylid hysbysu'ch heddlu lleol ar unwaith (ffoniwch 999):

- Y bygythiad o drais sydd ar fin digwydd.
- Syniadau obsesiynol – os bydd rhywun yn ymddangos ei fod yn benderfynol o weithredu mewn rhyw fodd neu yn gwneud math penodol iawn o fygythiad neu yn cyfeirio at gynllun.
- Os daw yn amlwg i chi bod gan yr unigolyn arfau y gall eu defnyddio neu fod ganddo sgiliau i ddefnyddio arfau.
- Os bydd yr unigolyn yn rhyddhau gwybodaeth amdanoch nad yw'n wybodaeth gyhoeddus eisoes.

Dolenni Allweddol

Comisiwn Etholiadol

<https://www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/candidate-or-agent>

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am droseddau perthnasol o'r ddolen isod

<https://www.cps.gov.uk/verbal-abuse-and-harassment-public>

Mae cyngor a gwybodaeth ymarferol ar gael o:

Get Safe Online: www.getsafeonline.org

Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh: www.suzylamplugh.org

Cymorth i Ddiodefwr: www.victimsupport.org.uk | Ffôn: 08 08 16 89 111

Mae Twitter, Facebook ac YouTube wedi rhoi cyfarwyddyd i helpu ymgeiswyr gael gwell dealltwriaeth o:

- Pa fathau o gynnwys a gweithgareddau sy'n torri telerau ac amodau pob gwasanaeth;
- Sut y gall ymgeiswyr roi adroddiad yn uniongyrchol i gwmniau am achlysuron pan fyddant yn credu bod cynnwys yn torri telerau ac amodau; ac
- Yr ymateb y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl gan bob cwmni ar ôl rhoi adroddiad am broblem.

Gellir dod o hyd i'r cyfarwyddyd yma ac mae'n cynnwys dolenni i ddarnau unigol o gyfarwyddyd gan Twitter, Facebook ac YouTube:

<https://uk.internetassociation.org/blog/resource-for-parliamentary-candidates/>

Cyfarwyddyd Deddfwriaethol

1. Yn dilyn yr argymhelliad gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, mae Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, y Comisiwn Etholiadol, y Coleg Plismona a Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi datblygu cyfarwyddyd ar y cyd ynglŷn ag ymddygiad y gallai ymgeiswyr ei brofi yn ystod ymgyrch, sy'n debygol o fod yn drosedd.
2. Nid oes gofyn na disgwyl bod gan unigolyn sy'n rhoi adroddiad am drosedd honedig unrhyw ddealltwriaeth o gyfraith droseddol. Yn syml, bwriad y cyfarwyddyd yw helpu ymgeiswyr i adnabod ymddygiad a allai neu a allai beidio â chael ei ddal gan gyfraith droseddol, er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt a'u cynorthwyo gydag unrhyw gyswllt rhyngddynt â'r heddlu a gyda'r system cyfiawnder troseddol ehangach o bosib. Dan unrhyw amgylchiadau pan fydd ymgeisydd mewn etholiad o'r farn bod trosedd wedi ei chyflawni, caiff ei annog i roi adroddiad i'r heddlu.
3. Mae'r heddlu'n gyfrifol am ymchwilio i honiad bod trosedd wedi ei chyflawni. Yn dilyn yr ymchwiliad, mae'r penderfyniad ynglŷn ag a ddylid cyhuddo unigolyn o drosedd yn nwylo'r heddlu neu'r CPS: [mae Sed gyfrol Cyfarwyddyd y Cyfarwyddwr ar Gyhuddo](#) yn egluro manylion y broses o wneud penderfyniad ar gyhuddo. Rhaid i unrhyw benderfyniad ar erlyn gael ei wneud yn unol â'r [Cod ar gyfer Erlynyddion y Goron](#). Ni ellir cychwyn ar erlyniad oni bai bod (i) digon o dystiolaeth i sicrhau'r tebygolrwydd o euogfarn am y drosedd honedig, a (ii) bod yr erlyniad er lles y cyhoedd. Ni all yr heddlu gyflwyno achos i'r CPS ar gyfer penderfyniad ar gyhuddo oni bai eu bod hwythau eu hunain yn fodlon bod y prawf dau gymal hwn wedi ei fodloni.
4. Ni all y cyfarwyddyd hwn gwmpasu pob sefyllfa ond ei nod yw ymdrin yn fras â rhai o'r troseddau y gallai ymgeisydd mewn etholiad ddod ar eu traws. Ni ddylid trin y cyfarwyddyd hwn fel cyngor cyfreithiol nac ychwaith fel cofnod cynhwysfawr o'r meysydd cyfreithiol hyn.

Troseddau trefn gyhoeddus

5. Mae'r troseddau hyn sy'n torri Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn gysylltiedig â geiriau neu ymddygiad bygythiol neu sarhaus, neu ddsbarthu neu arddangos deunydd gweladwy, sy'n:
 - a. Debygol o godi ofn, neu i annog trais yn y fan a'r lle: [adran 4](#)
 - b. Achos aflonyddwch, pryder neu drallod yn fwriadol: [adran 4A](#)
 - c. Yn debygol o achosi aflonyddwch, pryder neu drallod (geiriau neu ymddygiad bygythiol neu sarhaus yn unig): [adran 5](#).

6. Mae'n amddiffyniad i adran 4A ac adran 5 i'r sawl a gyhuddwyd ddangos bod ei ymddygiad wedi bod yn rhesymol, a rhaid dehongli hynny'n unol â'r rhyddid mynegiant ac unrhyw fath arall o ryddid. Os defnyddir y rhyddidau hyn, rhaid sefydlu cyfiawnhad o amharu (drwy erlyniad) arnynt yn argyhoeddiadol. Ni ellir parhau ag erlyniad oni bai ei bod hi'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.
7. Am ragor o fanylion, gweler cyfarwyddyd cyhoeddedig y CPS [yma](#).

Difrod troseddol

8. Pan fydd unigolyn yn difrodi eiddo sy'n perthyn i unigolyn arall, mae'n euog o [ddifrod troseddol](#) os oedd ef neu hi'n bwriadu dinistrio neu ddifrodi'r eiddo, neu os oedd yn ddiotal wrth wneud hynny, gan dorri adran 1(1) Deddf Difrod Troseddol 1971. Mae "diofal" yn golygu bod yr unigolyn wedi rhagweld risg y byddai'r eiddo'n cael ei ddinistrio neu ei ddifrodi ond wedi dal ati serch hynny mewn modd afresymol i gymryd y risg honno. Mae'r amddiffyniad o [esgus cyfreithlon](#) ar gael os yw'r un dan amheuaeth yn credu o ddifrif y byddai unigolyn, a fyddai â hawl i ganiatáu'r dinistr neu'r difrod, wedi ei ganiatáu yn wirioneddol neu y byddai wedi caniatáu hynny, neu fod y dinistr neu'r difrod er mwyn gwarchod eiddo arall a oedd angen ei ddiogelu ar unwaith a bod y dull o ddiogelu yn rhesymol. Mae ffurf fwy difrifol o'r drosedd yn cael ei chyflawni os yw'r un dan amheuaeth yn gweithredu'n fwriadol neu'n ddiotal o ran a fydd bywyd mewn perygl yn sgil y dinistr neu'r difrod i'r eiddo.

Ymosodiadau

9. Mewn trefn gynyddol o ran difrifoldeb, y troseddau mwyaf cyffredin o ran ymosodiadau yw: curo; ymosodiad sy'n arwain at niwed corfforol gwirioneddol; gwneud niwed corfforol gwirioneddol; achosi niwed corfforol difrifol gyda'r bwriad o wneud hynny. Mae [cyfarwyddyd cyfreithiol y CPS](#) yn amlinellu'r troseddau hyn a'r ystyriaethau sy'n berthnasol wrth benderfynu ar lefel y cyhuddiad. Mae [hunanamddiffyniad](#) neu amddiffyn rhywun arall yn amddiffyniad i gyhuddiad o ymosodiad, pan fydd unigolyn yn wirioneddol (hyd yn oed mewn camgymeriad neu'n afresymol) yn credu bod angen ei amddiffyn ei hun neu rywun arall ac yn defnyddio grym rhesymol yn seiliedig ar y ffeithiau fel y mae'n eu credu.

Troseddau o aflonyddu a stelcian

10. Caiff y [drosedd o aflonyddu](#) yn groes i Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, ei chyflawni pan fydd unigolyn yn dilyn cwrs ymddygiad sy'n aflonyddu ar unigolyn arall, gan wybod ei fod yn aflonyddu neu y dylai ef neu hi wybod hynny. Mae "cwrs ymddygiad" yn asesiad ffaith-benodol. Mae'n galw am ymddygiad ar fwy nag un achlysur ond nid oes raid i hynny fod yr un ymddygiad ar bob achlysur. Mae galwad ffôn, cyfarfod wyneb yn wyneb, e-bost neu neges drydar oll yn wahanol fathau o ymddygiad, ond gyda'i gilydd gallent gael eu hystyried yn gwrs ymddygiad yn ddibynnol ar ffactorau fel nifer yr achlysuron a thros ba gyfnod o amser y digwyddodd hyn. Gall ymddygiad sy'n cychwyn fel cwyn neu ymholiad dilys droi'n achos o aflonyddu os bydd yn parhau dros gyfnod afresymol o hir neu yn barhaus. Gall

ymddygiad sy'n targedu grŵp bach o bobl hefyd gael ei ystyried yn aflonyddu, er enghraifft ymddygiad tuag at dîm ymgyrchu gyda'r nod o ddylanwadu ar yr ymgeisydd.

11. Unwaith eto, mae'n amddiffyniad profi bod yr ymddygiad yn rhesymol a rhaid dehongli hynny hefyd yn unol â'r rhyddid mynegiant ac unrhyw fath arall o ryddid. Os bydd y rhyddidau hyn yn rhan o'r achos, rhaid sefydlu cyfiawnhad dros amharu arnynt (trwy erlyn) yn argyhoeddiadol. Ni ellir parhau ag erlyniad oni bai ei bod hi'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.
12. Cyflawnir y [drosedd o stelcian](#) pan ystyrir yr aflonyddu'n stelcian, a dyma rai enghreifftiau yn unig o hynny:
 - a. Dilyn unigolyn;
 - b. Cysylltu ag unigolyn, neu geisio gwneud hynny drwy unrhyw ddull;
 - c. Cyhoeddi datganiad neu unrhyw ddeunydd arall –
 - i. Yn gysylltiedig ag unigolyn neu'n honni ei fod felly; neu
 - ii. Honni ei fod yn deillio gan unigolyn;
 - d. Monitro'r defnydd o'r rhyngwrwyd, e-bost neu unrhyw fath arall o gyfathrebu gan unigolyn;
 - e. Sefyllian yn unrhyw le (lle cyhoeddus neu breifat);
 - f. Ymyrryd ag unrhyw eiddo sy'n perthyn i unigolyn;
 - g. Gwyllo neu ysbïo ar unigolyn.
13. Am ragor o fanylion, gweler cyfarwyddyd cyhoeddedig y CPS [yma](#).

Troseddau Casineb

14. Trosedd gasineb yw unrhyw drosedd a ysgogwyd gan gasineb neu ragfarn tuag at hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol gwirioneddol neu dybiedig unigolyn. Mae'r darpariaethau cyfreithiol ar gyfer troseddau casineb yn cynnwys troseddau penodol a waethygyd (ar gyfer hil a chrefydd), ysgogi troseddau casineb (ar gyfer hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol) a darpariaeth ar gyfer 'dyrchafu' defnyddau (ar gyfer y pum ffrwd i gyd).
15. Dywed adrannau 28 i 32 [Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998](#) pan gyflawnir cyfres o droseddau presennol – gan gynnwys ymosodiad, difrod troseddol, stelcian, aflonyddu a throseddau trefn gyhoeddus – ac y bu i drosedd o'r fath (i) gael ei hysgogi gan gasineb at hil neu grefydd, neu (ii) bod casineb at hil neu grefydd yn cyd-fynd â'r weithred o gyflawni'r drosedd, y cyflawnir trosedd hiliol ac ar sail crefydd fwy difrifol ac ar wahân sy'n destun cosb fwy llym. Am ragor o fanylion, gweler cyfarwyddyd cyhoeddedig y CPS [yma](#).
16. Mae Rhan 3 - <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1986/64/part/III> a 3A <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1986/64/part/3A> Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 yn darparu troseddau am weithredoedd a fwriadwyd neu sy'n debygol o ysgogi casineb hiliol a gweithredoedd a fwriadwyd i ysgogi casineb crefyddol neu gasineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol (yn eu tro).

17. Ar gyfer y troseddau hynny nad ydynt wedi'u cynnwys ond sydd â chasineb neu ysgogiad o gasineb tuag at hil neu grefydd yn [bresennol](#), neu gasineb neu ysgogiad o gasineb tuag at anabled, cyfeiriadedd rhywiol neu bobl drawsryweddol [yn bresennol](#), rhaid trin hyn fel ffactor waethgol ar gyfer dedfryd drymach gan ddatgan hynny yn y llys agored: adrannau 145/146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.
18. Gellir cael rhagor o wybodaeth am droseddau casineb a sut i roi adroddiad amdanynt ar borth rhoi adroddiadau troseddau casineb yr heddlu True Vision <http://www.report-it.org.uk/home> a gwefan y CPS <https://www.cps.gov.uk/hate-crime>.

Troseddau Cyfathrebu

19. Mae [adran 1](#) Deddf Gohebiaethau Maleisus 1988 ac [adran 127](#) Deddf Gyfathrebu 2003 yn ei gwneud hi'n drosedd anfon rhai cyfathrebiadau penodol gan gynnwys y rheiny yr honnir eu bod yn anwedus, yn eithriadol o atgas neu'n fygythiol.
20. Mae "bygythiol" yn golygu creu ymdeimlad o bryder neu ofn i'r dioddefwr tebygol. Mae trothwy uchel i'w gyrraedd er mwyn bodloni'r prawf i benderfynu a yw'r cyfathrebiad yn "eithriadol o atgas". Nid yw erlyniad yn bosibl oni bai bod y cyfathrebiad dan sylw yn croesi'r trothwy uchel sy'n angenrheidiol i warchod rhyddid mynegiant, hyd yn oed rhyddid mynegiant annerbyniol, yn enwedig yn ystod trafodaethau gwleidyddol di-flewyn ar dafod. Mae cyfathrebu sydd yn syml yn un o'r canlynol, yn debygol o gael ei warchod fel rhyddid mynegiant:
 - a. Sarhaus, gwarthus neu boenus; neu
 - b. Sylw dychanol, iconoclastig neu ddigywilydd; neu
 - c. Mynegi barn amhoblogaidd neu anffasiynol ynglŷn â materion difrifol neu ddibwys, neu gellwair neu hiwmor, hyd yn oed os yw'n annifyr neu'n boenus i'r rhai sy'n ei dderbyn; neu
 - d. Gyfraniad dirwystr a difeddwl at sgwrs hamddenol pan fydd y cyfranogwyr yn disgwyl rhywfaint o gellwair rhwng y naill a'r llall a "rhoi a derbyn".
21. Mae'n annhebygol y bydd erlyniad yn bosibl oni bai bod y sgwrs yn mynd y tu hwnt i'r lefel a ddisgrifir uchod. Mae hyn yn cyfeirio at "safonau cyfoes.... safonau cymdeithas aml-hil agored a chyfiawn", gan asesu a yw neges benodol mewn cyd-destun neilltuol "wedi mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n dderbyniol mewn cymdeithas".
22. Am ragor o fanylion, gweler cyfarwyddyd cyhoeddedig y CPS [yma](#).

Troseddau etholiadol

23. Mae darpariaethau Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA 1983) yn darparu ar gyfer y drosedd o wneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiol anwir ynglŷn â chymeriad neu ymddygiad personol ymgeisydd, yn groes i [adran 106](#).
24. Rhaid i'r datganiad anwir fod yng nghyswllt cymeriad neu ymddygiad personol yr ymgeisydd yn hytrach na'i safbwyntiau gwleidyddol, enw da neu feirniadaeth o'i weithredoedd cyhoeddus. Mae'n amddiffyniad i'r gwneuthurwr ddangos bod ganddo ef neu hi achos rhesymol dros gredu neu beidio â chredu bod y datganiad yn wir. Dim ond pan fydd "er mwyn effeithio ar ganlyniad unrhyw ymgeisydd yn yr etholiad"

y bydd trosedd yn cael ei chyflawni ac felly yn ymwneud ag ymddygiad yn ystod cyfnod etholiad yn unig. Nodwch fod RPA 1983 yn darparu ar gyfer troseddau eraill o gamymddwyn yn ystod cyfnod etholiad.

Casgliad

25. Mae gweithrediad y gyfraith yn sensitif i'r ffeithiau a'r cyd-destun ymhob achos a rhaid cadw hynny mewn cof wrth ddefnyddio cyfarwyddyd cyffredinol mewn sefyllfaoedd gwirioneddol. Nid yw'r rhan fwyaf o'r geiriau sy'n cyfateb i brif elfennau'r troseddau hyn (e.e. bygythiol; atgasedd; bwriad; cwrs ymddygiad, eithriadol o atgas) yn dermau ag iddynt ystyr benodol yn y maes ac nid oes ganddynt ystyr cyfreithiol penodol. Mae eu hystyr arferol a beunyddiol yn berthnasol, a allai fod o gymorth wrth ystyried a gyflawnwyd trosedd neu beidio.
26. Os bydd ymgeisydd mewn etholiad o'r farn bod trosedd wedi ei chyflawni, caiff ei annog i roi adroddiad i'r heddlu, ond gallai'r cyfarwyddyd hwn fod o gymorth pan fydd ymgeisydd mewn cyswllt â'r heddlu neu'r system cyfiawnder troseddol yn ehangach.
27. Mae'r CPS wedi cyhoeddi [gwybodaeth ychwanegol](#) hefyd i seneddwyr wrth ymateb i ymddygiad bygythiol.
28. Ewch i'r wefan am ragor o wybodaeth <https://www.cps.gov.uk/verbal-abuse-and-harassment-public>

Er mwyn agor y canllaw byr 'pan fydd pethau'n mynd yn rhy bell' y dylid ei ddarllen ar y cyd â'r cyfarwyddyd hwn, dilynwch y ddolen isod.

<https://www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/candidate-or-agent>